

21 Ebrill 2015

Manon Elin
Cymdaethas yr Iaith Gymraeg
Ystaffl 5
Y Cambria
Aberystwyth
SY23 2AZ



Llanarthne, Carmarthenshire, SA32 8HG
Tel: (01558) 667148 Fax: (01558) 668933
Llanarthne, Sir Gaerfyrddin, SA32 8HG
Ffôn: (01558) 667148 Ffacs: (01558) 668933
www.gardenofwales.org.uk

Annwyl Manon,

Diolch am eich llythyr i fi o 9 Ebrill, afreolaidd yn Gymraeg un unig. As a Welsh learner at 'O' level standard, I can correspond only on informal matters through that language. I do not feel equipped to respond adequately except in English, my own language of preference, on more complex matters and importantly too am keen to avoid any possibility that the sense of what I am writing may inadvertently alter as a result of translation. I trust you will respect these caveats in the following reply which has been translated for your benefit.

Mae eich llythyr yn gwneud nifer o honiadau y ceisiaf fynd i'r afael â nhw ar wahân er mwyn rhoi digon o sylw iddyn nhw.

Fel mudiad ifanc (rhyw 15 mlwydd oed yn unig) gydag adnoddau cyfyngedig, mae'r Ardd wedi ymrwymo'n uchelgeisiol i ddatblygu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg drwy ei Chynllun Iaith Gymraeg. Mae'r ymrwymiad yn glir yn natganiad agoriadol y Cynllun: (2) bod yr Ardd wedi mabwysiadu'r egwyddor ei bod yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal wrth gyflawni ei gwaith yng Nghymru, yn unol a'i hamgylchiadau a'i bod hi'n rhesymol ymarferol i wneud hynny yng nghyd-destun ei hadnoddau. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi: (2.4) bod yr Ardd yn mynd i roi ar waith ei hegwyddorion ynglŷn â'r iaith Gymraeg'pan fo hynny'n ymarferol ac yn addas'. Credwn fod hyn yn cydfynd ag egwyddorion cyffredinol ein Cynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Gomisiwn yr Iaith Gymraeg, ac yn wir yn cydymffurfio gyda'r Archwiliad i Safonau sy'n digwydd yn awr. Fel y gwyddoch, mae'r Archwiliad hwn yn cydnabod yr angenrheidrwydd i ymgynhyrchu at gydbwysedd anodd rhwng cymesurdeb a rhesymoldeb, yn y cyd-destun y mae'r mudiad yn gweithio ynddo.

Fodd bynnag, mae'r Ardd yn ymdrechu'n ddygn i gyflwyno, hyfforddi, ac ymgynhyrchu pob aelod o'r staff â'i pholisïau gweithiol, gan gynnwys ei Chynllun Iaith Gymraeg. Mae manylion ychwanegol am yr egwyddor hon wedi'u cynnwys yn y Cynllun hwn a'r Cynllun Blyneddol, sy'n adrodd yn ôl i Gomisiwn yr Iaith Gymraeg.

Arwyddion

Yn gyntaf, hoffwn wneud yn glir fod yr Ardd yn flin iawn ei bod hi wedi bod yn achos unrhyw helynt

neu anniddigrwydd. Ry'n ni'n cydnabod yn llawn bwysigrwydd presenoldeb gweledol y Gymraeg fel cyfraniad gadarnhaol i hunaniaeth ac unigrywiaeth Cymru, yn enwedig i'w symboliaeth sylweddol i barhâd hyfyrw a statws cyfreithiol yr iaith.

Mae'r Ardd wedi defnyddio'r dull o hysbysebu ymyl y ffordd fel rhan integredig o'i chynllun marchnata am flynyddoedd lawer, ac fe'i ystyrir yn un o'r dulliau mwyaf effeithiol o hyrwyddo'r Ardd, trwy dynnu sylw'r sawl sy'n teithio tuag atom yn uniongyrchol ac yn syth, pan fyddan nhw ond rhyw ychydig funudau oddi wrthom. Tra'n cydnabod y farchnad dwristiaeth werthfawr a phwysig yng Nghymru, mae hi'n amlwg yn wir nad yw mwyafrif sylweddol o'n hymwelwyr yn medru darllen Cymraeg. Cynlluniwyd yr arwyddion hyn yn arbennig felly er mwyn dal sylw ymwelwyr i Gymru sy'n dod o du draw'r ffin, yn enwedig yn ystod cyfnodau poblogaidd o hamddena, e.e. cyfnod y Pasg. Mae'r teithwyr hyn, yn ôl ein profiad ni beth bynnag, yn anghyfarwydd â'r ddaearyddiaeth leol.

Mae'n hanfodol i'r dull hwn o gyfathrebu – baner mawr mewn cae wrth ymyl y ffordd ddeuol – bod ei maint yn cael ei gyfyngu gan ystyriaethau ymarferol fel maint y trelar. Yn ychwanegol at hyn, er mwyn bod yn effeithiol (ei gweld, ei darllen a'i deall), rhaid i'r neges fod yn ddarllenadwy, yn glir ac i'r pwynt – ac felly wedi'i chyfleu mewn llai na phum neu chwe gair byr.

Ein huchelgaïs yw cyfod un arwydd byr, syml, un-iaith, gydag arwydd byr, syml, un-iaith, yn yr iaith arall, wedi'u lleoli'n addas yn agos at ei gilydd. Mor belled, yn anffodus nid ydym eto wedi cyflawni'r uchelgaïs hwn. Yn y cyfamser, yng ngolau'r sylwadau diweddar, ry'n ni'n cydnabod yr angen i arolygu a diwygio'r trefniant bresennol.

Mae dangos arwyddion yn ymyl y ffordd yn amlwg ag ystyriaethau pwysig i'r Ardd. Mae hyn cynnwys ein hymrwymiad datganedig ac ymhlyg i ddiwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae'n cynnwys hefyd costau defnyddiau uniongyrchol a pharhaus (o'r arwyddion eu hun @ £250 yr un, eu cyfieithu, y trelar @£3000 yr un, y safle @ £400 y flwyddyn am un trelar, a staffio wrth eu gosod a'u newid @ tua £50).

Mae'n fwrriad gan yr Ardd o'r cychwyn i hurio safle addas a phriodol (yn benodol i gyfeiriad y dwyrain ar yr A48, yn neu ger Caerfyrddin) ar gyfer ail drelar, gyda'r bwriad o'i ddefnyddio i chyfleu neges o'r Ardd er mwyn denu ymwelwyr mwy lleol, yn hytrach na thargedu ymwelwyr o du draw i Bont Hafren. Mae hyn yn debyg i'n polisi o roi hysbysebion Cymraeg a Saesneg ar wahân ar dudalennau gwahanol ein papur lleol, y *Carmarthen Journal*. Ry'n ni'n defnyddio'r dull hwn pan fo maint (neu deip) y gwybodaeth ry'n ni am ei chyfleu yn fwy na'r gofod sydd ar gael, ar, dyweder, hanner tudalen (tabloid) (sy'n costio c.£500).

Wrth hyrwyddo'r Ardd trwy gyfrwng baneri mawrion mewn caeau gerllaw, ry'n ni wedi prynu ail drelar – ar gost o £3,500 – ond ry'n ni heb fod yn llwyddiannus mor belled i sicrhau safle addas ar ei gyfer.

Ry'n ni'n cydnabod, yn sgil sylwadau diweddar, na allwn ni barhau i leoli baneri yn Saesneg yn unig ar yr unig safle sydd ar gael inni'n awr, tra'n chwilio am safle addas ar gyfer yr ail drelar. Bydd parhau i wneud hynny yn tramgwyddo ein hymrwymadau tuag at yr iaith Gymraeg.

Ar ôl dweud hynny, rwy'n datgan unwaith eto fod yr Ardd wedi ymrwymo'n llawn i ddwyieithrwydd, fel y tystiolaetha ei Chynllun Strategol Deng Mlynedd, ei dogfennau busnes eraill, a'i holl defnyddiau masnachol, a'i datganiadau i'r wasg sydd ar gael yn ddwyieithog bob tro – fel y mae ei holl deunydd dysgu a chysiau dysgu. Yr hyn sydd wedi disgwydd yma yw nad ydyn ni'n, anffodus, wedi ail ymweld,

ail asesu ac ail werthuso'n ddigonol yr agwedd hwn o'n gweithgaredd, yng ngolau'r gefnogaeth gynyddol i'r iaith Gymraeg, a'n hymrwymadau eglur i'n Cynllun Iaith Gymraeg 2013.

Cyfathrebu Ysgrifenedig

Anfonwyd yr e-bost y soniwyd amdano at ein partneriaid sy'n ddarparwyr llety i dwristiaid gan ein Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu. Dechreuodd y grŵp hwn fel rhestr bychan, anffurfiol o gysylltiadau lleol a phersonol y Pennaeth Marchnata. Roedd pob un wedi cysylltu â'r Ardd yn annibynnol, neu wedi'u recriwtio'n bersonol drwy hap a damwain. Ar yr adeg honno, roedd dealltwriaeth glir ymhlith y grŵp y byddai'r cyfathrebu'n digwydd trwy gyfrwng y Saesneg.

Datblygodd fanteision i aelodau'r grŵp yn raddol dros gyfnod o amser, fel eu bod nhw yn sgil hyrwyddo'r Ardd i'w gwesteion yn derbyn cyflenwad o dalebau disgownt ar gyfer mynediad i'r Ardd (dwyieithog), llyfrynau 'Beth Sy Mla'n?' (dwyieithog), copïau o'r cylchgrawn *Yr Ardd* (dwyieithog), a, lle bo hynny'n addas, tocynnau wedi'u codio (eto'n ddwyieithog) – gyda'r amcan syml o geisio perswadio'u gwesteion i ymweld â'r Ardd. Maen nhw hefyd yn cael eu rhestru am ddim ar wefan yr Ardd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn sgil llwyddiant cynyddol y grŵp hwn o ddarparwyr llety i dwristiaid, yn lle bod yn grŵp bychan o rhyw 8-10 perchennog, mae'r grŵp nawr wedi ymestyn i ddarparwyr llety o Gaerdydd, Abertawe, Aberhonddu, Penfro ac Aberteifi – ynghyd â llawer mwy yng nghyffiniau Llanarthne a Chaerfyrddin. Mae ei dyfiant erbyn hyn yn offeryn ac yn gyfrwng bwysig i bawb ar y ddwy ochr ar gyfer marchnata.

Ry'n ni'n ymwybodol erbyn hyn, fodd bynnag, fel yn y mater uchod o arwyddion ymyl ffordd, dyw ein system o gyfathrebu heb aeddfedu gyda'i thyfiant, a chynnwys yr angen am ddwyieithrwydd. Ry'n ni'n ymddiheurio am yr esgeulustod hwn, a byddwn yn cymryd y camau angenrhreidiol er mwyn cywiro'r mater yn y dyfodol.

Sylwadau eraill o'r Ardd

Yn gyntaf, hoffwn ei gwneud hi'n hollol glir bod gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ffocws i graffu'r Comisiwn. Yn benodol i'r materion dan sylw, ry'n ni'n ymddiheurio am ein hesgeulustod a'n hamryfusedd. Roedd cyfathrebu gyda'n darparwyr llety wedi'i gyflawni gyda'r amcanion gorau, ond yn anffodus heb feddwl am ei gyfieithu. Mae ein harwyddion yn yr un modd wedi'u hamcanu at godi proffil, cyrhaeddiad a llwyddiant yr Ardd, er lles y rhanbarth hwn o Gymru. Ond y mae'r ddau yn engreiffiau o esgeulustod a ddeiliodd o anghenion annilys ymarferol, heb eu harolygu a'u hadolygu'n ddigonol trwy amryfusedd.

Gwefan

Mewn perthynas â'n gwefan, ry'n ni'n ymwybodol ein bod ni'n wynebu heriau technegol sylweddol a difrifol. Mae'r rhain wedi codi yn sgil problemau technegol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni, yn wir y tu hwnt i reolaeth unrhyw un. Mae'n ffaith bod strwythur gwefan gwreiddiol yr Ardd â diffygion cynhenid ynddi, sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg wrth l'r amgylchfyd ddigidol esblygu. Y canlyniad yw fod y strwythur yn amhosibl i'w chynnal yn iawn. Golyga hyn er fod cynnwys ein gwefan wedi cael ei gyfieithu a'i ddangos yn Gymraeg, mae diffygion y strwythur a datblygiadau cymhleth digidol wedi golygu bod edrych ar wybodaeth yn Gymraeg yn ansad ac yn anrhagweladwy. O ganlyniad i hyn, mae cynnal a diweddarau'r wefan yn y naill iaith neu'r llall yn peri problemau difrifol iawn. Fodd bynnag,

rwy'n falch iawn i adrodd bod ein gwefan newydd sbon, wedi'i chynllunio o'r dechrau i alluogi diwyg dwyieithog, ar ei ffordd i gael ei gweithredu. Gan obeithio na fydd ein hymdrechion tuag at y cyfeiriad hwn yn cael eu hailgyfeirio'n groes l'n hewyllys, ry'n ni'n rhagweld y bydd y wefan yn fyw yng Nghorffennaf 2015.

Sicrhau effaith bositif i'r feirniadaeth

Ry'n ni'n gwerthfawrogi 'ffrindiau beirniadol' mewn perthynas â'r Gymraeg, fodd bynnag credwn ein bod ni wedi gwneud camau arwyddocaol tuag y defnydd o'r Gymraeg yn yr Ardd. Wedi codi o'r digwyddiadau hyn ac yn cyd-ddigwydd â'r llythyr hwn, mae'r Ardd wedi wynebu ymgyrch gref a pharhaus – sydd wedi bod yn ymylu ar y ffyrnig a'r annifyr ambell waith, ac a deimlwyd hefyd yn anghymesur. Mae e wedi cynnwys beirniadaeth oddi wrth unigolion a gyd-drefnwyd o'r tu allan, a sylw'r cyfryngau ar ein diffygion – gan anwybyddu unrhyw ymdrechion positif a wnaethpwyd gan yr Ardd hyd yn hyn, ac wedi bod ar lefel sydd wedi peryglu'n anffodus a diraddio'r ymdrechion hynny a allai fod wedi'u cymhwyso i welliannau'n ymwneud â'r Gymraeg, pe bai'r feirniadaeth wedi bod ychydig yn fwy adeiladol.

Gobeithiaf bod natur ystyriol a thrylwyrdd yr ymateb hwn yn delio â'r materion a godwyd yn ddigonol, ac yn helpu i dawelu meddwl Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am fwriadau ac ymdrechion dilys yr Ardd. Yn naturiol, fodd bynnag, rhowch wybod imi am unrhyw faterion arall y dymunwch imi eu hegluro.

Negeseuon oddi wrth eich haelodau

Ry'n ni wedi derbyn yn ddiweddar ohebiaeth sydd yn debyg, rhai ohonyn nhw bron air-am-air yn debyg, i'w gilydd, sydd yn awgrymu eu bod nhw oddi wrth eich aelodau. Gan nad yw hi'n rhesymol i ddisgwyl imi roi ateb i bob un ar wahân, fy mwriad yw rhoi gwybod i'r gohebwyr hynny fy mod I wedi ymateb yn llawn ichi, a gobeithiaf y bod hynny'n dderbyniol.

Edrychaf ymlaen at gefnogi'r Ardd fel mudiad fydd yn parhau i ddilyn ei hymrwymyiadau tuag at yr iaith Gymraeg, a byddaf yn croesawu derbyn unrhyw gefnogaeth bositif ac adeiladol oddi wrth Gymdeithas yr Iaith Gymraeg a'i haelodau niferus.

Yr eiddoch yn gywir,



Dr Rosetta M. Plummer
Director/ Cyfarwyddwr